**EITEM AR YR AGENDA: 16**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**18fed Mawrth 2013**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i Aelodau nodi a chymeradwyo'r adroddiad atodol gan y Pwyllgor Safonau.

## Cefndir

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae nawfed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

## Argymhelliad

4 Gofynnir i Aelodau nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma nawfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2012 hyd fis Mawrth 2013. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Yn dilyn yr etholiadau awdurdodau lleol yn 2012, bu newid yng nghynrychiolaeth y cynghorwyr ar y Pwyllgor Safonau. Merfyn Thomas a Glyn Williams oedd y cynrychiolwyr hyd at Fai 2012. Yng nghyfarfod blynyddol yr Awdurdod ar 18fed Mehefin 2012, penodwyd y Cynghorwyr Brian Dunn a Jim G Evans.

Felly, mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Celia Blomeley 01/01/2010 - 31/12/13
Jane A Eyton-Jones 01/01/2010 - 31/12/13
David Morris 01/09/10 - 31/08/14
Antony P Young 01/04/12 - 30/03/16

<u>Aelodau Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Brian Dunn (18fed Mehefin 2012 ymlaen)
Y Cynghorydd Jim G Evans (18fed Mehefin 2012 ymlaen)

## Presenoldeb a Materion

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 22ain Mai 2012 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones
David Morris
Antony P Young

Yn y cyfarfod hwnnw, penodwyd Jane A Eyton-Jones yn Gadeirydd a phenodwyd David Morris yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor. Trafodwyd polisi cwynion yr Ombwdsmon, cod ymddygiad ac yswiriant indemniad. Nodwyd nad oes gan yr Awdurdod yswiriant indemniad a chydnabuwyd mai yr ATA fyddai'n penderfynu a ddylid sefydlu polisi indemniad ai peidio.

Gwahoddwyd aelodau annibynnol i fynychu'r diwrnod hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd a'r rhai oedd yn dychwelyd wedi'r etholiadau ac roedd Celia Blomeley, David Morris ac Antony Young yn bresennol.

Ar 5ed Gorffennaf 2012, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer pob aelod o'r Pwyllgor Safonau. Gareth Owens oedd yn arwain y sesiwn hyfforddi a oedd yn cynnwys efelychiad o achos ymddygiad yn seiliedig ar ymddygiad aelod (sef y ffynhonnell fwyaf cyffredin a chymhleth o gŵyn mewn ardaloedd eraill) a'r weithdrefn i'w dilyn er mwyn galluogi'r aelodau i deimlo'n barod ac yn hyderus petai achos yn codi.

Ym Mawrth 2011, roedd yr Awdurdod wedi penderfynu cael aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio i fod yn aelod o'r panel a oedd yn ymdrin â chwynion sy'n cyrraedd gweithdrefn cam 3 o bolisi cwynion yr Awdurdod. Atgyfeiriwyd un gŵyn i'r panel, a bu Jane A Eyton-Jones yn aelod o'r panel ynghyd â'r Cyng. A M Jones a'r Cyng. M Ll Davies.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn cynghorwyr yn eu rolau fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Felly, ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor eu harchwilio neu benderfynu.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18fed Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawliau cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliadau. Talwyd cyfanswm o £104.75 o lwfansau teithio i aelodau annibynnol.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.